# HYSBYSIAD PWYSIG
# I BRESWYLWYR A MANWERTHWYR

## Cyngor Caerffili – Digwyddiadau Gaeaf 2024

## FFAIR Y GAEAF, YSTRAD MYNACH
### Dydd Sadwrn 16 Tachwedd 2024

**LLEOLIAD:** Bedwlwyn Road ac Oakfield Street.

**ORIAU AGOR:** 9.00am - 5.00pm.

**CAU FFYRDD A SYSTEMAU TRAFFIG:** Cau Bedwlwyn Road ac Oakfield Street o 9.00pm ar 15.11.24 tan 9.00pm ar 16.11.24. Bydd system unffordd ar waith ar hyd Pengam Road i gyfeiriad y dwyrain rhwng y cyffyrdd â Bedwlwyn Road a'r ffordd fynediad i faes parcio Oakfield Street/Lidl, gan greu estyniad i'r system unffordd bresennol yn y Stryd Fawr. Rhaid sicrhau bod pob cerbyd wedi'i barcio yn yr ardal hon yn wynebu'r dwyrain, tuag at Lidl/Tesco erbyn 9.00pm ar 15.11.24 tan 9.00pm ar 16.11.24 i sicrhau eu bod nhw'n gallu ymuno â llif y traffig yn y system unffordd dros dro hon. Bydd cerbydau diogelwch addas yn cael eu gosod ar bwys pob mynedfa cerbydau i safle'r digwyddiad. Mae'r systemau lleihau cerbydau hyn yn creu amgylchedd diogel i'r digwyddiad gael ei gynnal ac mae'n rhan o gynllun gwrthderfysgaeth y digwyddiad.

**MYNEDIAD I FANWERTHWYR:** Byddwch cystal â threfnu derbyn nwyddau cyn 9.00pm ar 15.11.24 ac ar ôl 9.00pm ar 16.11.24 neu rhwng 3.00am a 7.00am.

**MYNEDIAD I BRESWYLWYR:** Ni fydd neb yn cael parcio yn Bedwlwyn Road nac Oakfield Street rhwng y gyffordd â Bedwlwyn Road a'r tu ôl i Ganolfan Gristnogol Siloh o 9.00pm ar 15.11.24 tan 9.00pm ar 16.11.24. Rhaid gwneud trefniadau parcio amgen. Bydd preswylwyr yn Oakfield Street yn cael mynediad i'w heiddo drwy faes parcio Oakfield Street tra bydd y ffyrdd ar gau.

**TACSIS:** Ni fydd tacsis yn cael mynd ar hyd y ffyrdd a fydd ar gau. Byddwch cystal â threfnu safleoedd casglu a gollwng amgen.

**LLWYBRAU A SAFLEOEDD BYSIAU:** Dyma'r newidiadau i'r bysiau a fyddai, fel arfer, yn gwasanaethu safle bysiau Capel Siloh yn Bedwlwyn Road:

- Bydd llwybr 7 tuag at Bontypridd yn galw ym maes parcio Tesco, A469, Pont Ystrad Mynach, The Royal Oak a Swyddfa Bost.
- Bydd llwybrau 50 ac C9 tuag at Gaerffili yn galw yn Lidl ac yna'n troi wrth gylchfan Ysgol Lewis i Ferched ac yn gadael ar hyd Pengam Road, A469 a Phont Ystrad Mynach.
- Bydd llwybrau C16 ac C17 tuag at Gaerffili yn galw yn y Llyfrgell, yna'n gadael ar hyd Pengam Road, A469 a Phont Ystrad Mynach.
- Bydd llwybr 7 i Goed Duon, 50, C9, C17 tuag at Fargod ac C16 i Nelson yn stopio wrth eu safleoedd bysiau arferol.

## FFAIR Y GAEAF, COED DUON
### Dydd Sadwrn 23 Tachwedd 2024

**LLEOLIAD:** Y Stryd Fawr, Coed Duon.

**ORIAU AGOR:** 9.00am - 5.00pm

**CAU FFYRDD A SYSTEMAU TRAFFIG:** Cau'r Stryd Fawr o'r gyffordd â Bridge Street a Pentwyn Road rhwng 9.00pm ar 22.11.24 a 9.00pm ar 23.11.24. Bydd Bridge Street a Pentwyn Road yn aros ar agor. Ni fydd modd i'r cyhoedd barcio ym maes parcio Wesley yn ystod y digwyddiad o 9.00pm ar 22.11.24 tan 9.00pm ar 23.11.24. Bydd cerbydau diogelwch addas yn cael eu gosod ar bwys pob mynedfa cerbydau i safle'r digwyddiad. Mae'r systemau lleihau cerbydau hyn yn creu amgylchedd diogel i'r digwyddiad gael ei gynnal ac mae'n rhan o gynllun gwrthderfysgaeth y digwyddiad.

**MYNEDIAD I FANWERTHWYR:** Yn achos manwerthwyr yn y rhan o Stryd Fawr Coed Duon a fydd ar gau, sydd heb fynediad i'r lôn gefn, dylen nhw drefnu derbyn nwyddau sydd eu hangen ar gyfer penwythnos y digwyddiad cyn 9.00pm ar 22.11.24 neu rhwng 3.00am a 7.00am ar 23.11.24.

**MYNEDIAD I BRESWYLWYR:** Bydd preswylwyr yn Wesley Road yn cael tocynnau i gael mynediad i'w heiddo nhw ar hyd Cefn Road rhwng 9.00pm ar 22.11.24 a 9.00pm ar 23.11.24. Dyma'r unig lwybr mynediad i'ch eiddo chi tra bydd y ffyrdd ar gau a rhaid i docynnau fod yn weladwy wrth fynd i mewn. Tra bydd y ffyrdd ar gau, bydd y rhwystr wedi ei ddatgloi a bydd stiward yno yn ystod oriau agor y digwyddiad. Bydd staff diogelwch yn monitro'r rhwystr yn rhannol dros nos. Os nad oes stiward yno pan fyddwch chi'n cyrraedd/gadael y safle, sicrhewch fod y rhwystr ar gau wedi hynny. Os oes angen rhagor o docynnau arnoch chi, cysylltwch â digwyddiadau@caerffili.gov.uk/07876 358074. Noder, bydd maes parcio Wesley yn parhau i fod yn faes parcio talu ac arddangos er bod mynediad at y maes parcio yn gyfyngedig; os ydych chi'n parcio yma, sicrhewch eich bod chi'n cadw at y ffioedd sydd wedi eu nodi ar yr hysbysiadau talu ac arddangos.

**TACSIS:** Ni fydd tacsis yn cael mynd ar hyd y ffyrdd a fydd ar gau. Byddwch cystal â threfnu safleoedd casglu a gollwng amgen.

**LLWYBRAU A SAFLEOEDD BYSIAU:** Nid yw cau'r ffyrdd hyn yn effeithio ar safleoedd bysiau. Bydd llwybrau amgen ar waith o gwmpas Gordon Road, Albany Road, Attlee Road, Bloomfield Road, Pentwyn Road a Pentwyn Avenue.

## FFAIR Y GAEAF, CAERFFILI
### Dydd Sadwrn 30 Tachwedd 2024

**LLEOLIAD:** Cardiff Road, Y Twyn, Castle Street (tua'r gogledd yn unig), Lôn-y-Twyn, Canolfan Siopa Cwrt y Castell a maes parcio'r Twyn.

**ORIAU AGOR:** 9.00am – 6.00pm gyda Gorymdaith Lusernau Afon y Goleuni yn digwydd am 5.00pm ac Arddangosfa Tân Gwyllt am oddeutu 5.45pm.

**CAU FFYRDD A SYSTEMAU TRAFFIG:** Cau Cardiff Road, Y Twyn, Lôn-y-Twyn a Castle Street (tua'r gogledd yn unig) o 9.00pm ar 29.11.24 tan 10.30pm ar 30.11.24. Ni fydd system unffordd St Fagans Street ar waith rhwng y gyffordd â Bradford Street a Cardiff Road tra bydd y ffyrdd ar gau. Bydd rhaid i gerbydau droi i'r chwith wrth yrru o St Fagans Street i Bradford Street. Bydd Canolfan Ddysgu yr Hwb yn gosod mesurau lleihau cerbydau ar Pentrebane Street er mwyn cynnwys y busnesau sydd wedi'u lleoli ar y stryd hon yn safle'r digwyddiad. Bydd y mesurau lleihau cerbydau ar St Fagans Street yn cael eu gosod y tu hwnt i Peacocks/The Deli er mwyn cynnwys y busnesau hyn yn safle'r digwyddiad. Bydd nifer o gonau 'dim aros' yn cael eu gosod ychydig y tu hwnt i Peacocks/The Deli ger eiddo preswyl i greu cylch troi ar gyfer unrhyw gerbydau sy'n gyrru ar St Fagans Street o'r gyffordd â Bradford Street. Bydd maes parcio'r Twyn yn cau am 6.00pm ar 29.11.24 er mwyn gosod y digwyddiad, ac yn agor am 10.30pm ar 30.11.24. Bydd cerbydau diogelwch addas yn cael eu gosod ar bwys pob mynedfa cerbydau i safle'r digwyddiad. Mae'r systemau lleihau cerbydau hyn yn creu amgylchedd diogel i'r digwyddiad gael ei gynnal ac mae'n rhan o gynllun gwrthderfysgaeth y digwyddiad.

**MYNEDIAD I FANWERTHWYR:** Yn achos manwerthwyr yn y rhan o Cardiff Road a fydd ar gau, sydd heb fynediad i'r lôn gefn, dylen nhw drefnu derbyn nwyddau sydd eu hangen ar gyfer penwythnos y digwyddiad cyn 9.00pm ar 29.11.24 neu rhwng 3.00am a 7.00am ar 30.11.24. Yn achos manwerthwyr yn St Fagans Street sydd â lle parcio/garej y tu ôl i'w heiddo yn Park Lane, byddan nhw'n cael tocyn er mwyn cael mynediad yn ystod y digwyddiad. Bydd modd parcio yn Ysgol y Twyn yn ystod oriau agor y digwyddiad ar bob diwrnod, os oes angen ac os oes ganddyn nhw docyn mynediad. Yn achos manwerthwyr a staff y Llyfrgell sy'n cael defnyddio'r maes parcio y tu ôl i Gymdeithas Adeiladu'r Principality a Llyfrgell Caerffili, mae modd gwneud cais am docyn mynediad drwy gysylltu â digwyddiadau@caerffili.gov.uk / 07876 358074.

**LÔN-Y-TWYN:** Bydd Lôn-y-Twyn ar gau o 9.00pm ar 29.11.24 tan 9.00pm ar 30.11.24 er mwyn caniatáu i Brew Monster gynnal eu digwyddiad eu hunain yn ystod Ffair y Gaeaf, Caerffili, a bydd aros a llwytho yn cael eu gwahardd. Er mwyn hwyluso digwyddiad diogel, mae gofyn i breswylwyr a manwerthwyr gadw'r ffordd hon a'r holl feysydd parcio ar bwys y ffordd hon yn glir o gerbydau. Lle mae cerbydau wedi'u parcio ar y lôn gefn o East View i Lôn-y-Twyn, y cyngor yw parcio cerbydau er mwyn gadael ar hyd East View. Ni fydd mynediad i Lôn-y-Twyn o'r lôn hon tra bydd y ffyrdd ar gau. Lle nad oes modd dod o hyd i leoedd parcio eraill ar gyfer y manwerthwyr hynny sydd â meysydd parcio ar Lôn-y-Twyn, mae modd defnyddio Ysgol y Twyn ar gyfer parcio yn ystod oriau agor y digwyddiad bob dydd os oes angen. I wneud cais am docynnau mynediad, cysylltwch â digwyddiadau@caerffili.gov.uk neu 07876 358074.

**GWASANAETH DOSBARTHU ICELAND, SIOP FLODAU NICOLA DOWNIE A MAES PARCIO SPORTS DIRECT:** Ni fydd y cyhoedd yn cael mynd i'r maes parcio. Yn ystod y digwyddiad, bydd stiward yn cadw golwg ar y bolardiau gollwng cloadwy rhwng Windsor Street a maes parcio Sports Direct/Siop Flodau Nicola Downie/Iceland. Bydd angen i dacsis gasglu eu teithwyr o ddiwedd Lôn Drefol Gogledd Windsor Street. Gall deiliaid allweddi, rheolwyr a gweithwyr sifftiau cynnar Iceland, Siop Flodau Nicola Downie a Sports Direct gael mynediad i'r maes parcio o Cardiff Road o 3.00am tan 7.00am ar 30.11.24. Ar ôl yr amseroedd hyn, dim ond ar hyd Lôn Drefol Gogledd Windsor Street y caiff cerbydau adael maes parcio'r siop. Dylai pob aelod arall o'r staff barcio mewn meysydd parcio eraill yn yr ardal neu ddefnyddio'r lleoedd a fydd

ar gael yn Ysgol y Twyn. Bydd tocynnau'n cael eu rhoi i Sports Direct, Siop Flodau Nicola Downie ac Iceland ar gyfer yr ysgol hon. Os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau yn ystod y diwrnod, ffoniwch 07876 358074 i siarad â'r swyddog digwyddiadau ar y safle.

**MYNEDIAD I BRESWYLWYR:** Er mwyn hwyluso taith ddiogel i gerbydau dosbarthu nwyddau Iceland, Siop Flodau Nicola Downie a Sports Direct ar hyd Lôn Drefol Gogledd Windsor Street, bydd gofyn i breswylwyr gadw'r lôn hon yn rhydd o gerbydau yn ystod cyfnod y digwyddiad. Bydd aros a llwytho yn y lôn hon yn cael eu gwahardd o 5.00pm ar 29.11.24 tan 10.30pm ar 30.11.24. Yn achos preswylwyr yn St Fagans Street sydd â lle parcio/garej y tu ôl i'w heiddo yn Park Lane, byddan nhw'n cael tocyn er mwyn cael mynediad yn ystod y digwyddiad. Bydd modd parcio yn Ysgol y Twyn yn ystod oriau agor y digwyddiad ar bob diwrnod, os oes angen.

**TACSIS:** Ni fydd tacsis yn cael mynd ar hyd y ffyrdd a fydd ar gau. Byddwch cystal â threfnu safleoedd casglu a gollwng amgen.

**LLWYBRAU A SAFLEOEDD BYSIAU:** Bydd y safleoedd bysiau, a fydd wedi eu heffeithio tra bydd y ffyrdd ar gau, yn cael eu symud i'r brif gyfnewidfa a bydd llwybr bysiau dros dro ar waith ar hyd Clive Street, Ludlow Street a Crescent Road.

## GORYMDAITH LUSERNAU AFON Y GOLEUNI AC ARDDANGOSFA TÂN GWYLLT, CAERFFILI

### Dydd Sadwrn 30 Tachwedd 2024

**LLEOLIAD:** Mae'r orymdaith yn cychwyn o Ysgol Gyfun Martin Sant (CF83 1UW).

**ORIAU AGOR:** 5.00pm, tân gwyllt tua 5.45pm.

**CAU FFYRDD A SYSTEMAU TRAFFIG:** Yn unol â Ffair y Gaeaf, Caerffili, sy'n digwydd ar yr un diwrnod. Yn ogystal, bydd ffordd ar gau mewn modd treigl am gyfnod byr ar Hillside a Mountain Road nes bydd yr orymdaith yn cyrraedd y ffordd sydd ar gau ar Cardiff Road.

**MYNEDIAD I DACSIS, MANWERTHWYR A PHRESWYLWYR:** Yn unol â'r trefniadau ar gyfer Ffair y Gaeaf, Caerffili, sy'n digwydd ar yr un diwrnod.

**LLWYBRAU A SAFLEOEDD BYSIAU:** Yn unol â'r trefniadau ar gyfer Ffair y Gaeaf, Caerffili, sy'n digwydd ar yr un diwrnod.

**PRESWYLWYR HILLSIDE:** Bydd problemau dros dro o ran mynediad/symud rhwng tua 4.30pm a 5.30pm tra bydd yr orymdaith yn ymgynnull ac yn cychwyn. Rydyn ni'n argymell bod pob cerbyd yn symud oddi ar y stryd er mwyn i'r orymdaith gael ei chynnal yn ddiogel. Fel arall, rydyn ni'n gofyn yn garedig i breswylwyr barcio ar yr ochr dde wrth i chi adael yr ysgol gan anelu at Mountain Road neu yn yr ysgol ei hun (ger y pwll nofio) tan y bydd yr orymdaith yn gadael y stryd. Dylai unrhyw breswylydd sy'n dod ar draws cerbydau yn parcio ar hyd ei dramwyfa yn ystod y digwyddiad, gan achosi rhwystr i'ch eiddo, gysylltu â'r heddlu drwy 101. Sylwch nad oes cyfleuster parcio a cherdded yn Ysgol Sant Martin ar gyfer Ffair y Gaeaf, Caerffili, na'r Orymdaith Lusernau.

**GWYBODAETH YCHWANEGOL:** Bydd gweithdai gwneud llusernau sy'n RHAD AC AM DDIM yn cael eu cynnal ar 16/17/23/24 Tachwedd o 10.00am tan 5.00pm yng Nghanolfan Gymunedol y Twyn (CF83 1JL). Bydd arddangosfa tân gwyllt, tua 10 munud o hyd, ar ôl i'r orymdaith ddod i ben. Y brif ardal i'r gynulleidfa wylio'r arddangosfa yw maes parcio'r Twyn. Am gyngor ar sut i edrych ar ôl eich anifeiliaid anwes yn ystod arddangosfeydd tân gwyllt, ewch i www.rspca.org.uk.

## FFAIR Y GAEAF, BARGOD

### Dydd Sadwrn 7 Rhagfyr 2024

**LLEOLIAD:** Lowry Plaza, Hanbury Square, Hanbury Road, y Stryd Fawr a'r Stryd Fawr Uchaf.

**ORIAU AGOR:** 9.00am - 6.00pm gyda'r Orymdaith Lusernau Cerddoriaeth a Goleuni newydd yn digwydd am 5.00pm.

**CAU FFYRDD, CAU MEYSYDD PARCIO A SYSTEMAU TRAFFIG:** Bydd Hanbury Square, Hanbury Road, y Stryd Fawr a'r Stryd Fawr Uchaf ar gau yn llwyr o 9.00pm ar 06.12.24 tan 9.00pm ar 07.12.24. Bydd maes parcio'r Emporium yn cau am 9.00pm ar 06.12.24 tan 9.00pm ar 07.12.24. Rhaid symud pob cerbyd o'r maes parcio cyn iddo gau. Bydd cerbydau diogelwch addas yn cael eu gosod ar bwys pob mynedfa cerbydau i safle'r digwyddiad.

Mae'r systemau lleihau cerbydau hyn yn creu amgylchedd diogel i'r digwyddiad gael ei gynnal ac mae'n rhan o gynllun gwrthderfysgaeth y digwyddiad.

**MYNEDIAD I FANWERTHWYR:** Byddwch cystal â threfnu derbyn nwyddau cyn 9.00pm ar 06.12.24 ac ar ôl 9.00pm ar 07.12.24 neu rhwng 3.00am a 7.00am. Ni fydd mynediad ar gael i gerbydau nwyddau trwm yng nghanol y dref tra bydd y ffyrdd ar gau.

**MYNEDIAD I BRESWYLWYR:** Ni fydd neb yn cael parcio yn Hanbury Square, Hanbury Road, y Stryd Fawr a'r Stryd Fawr Uchaf o 9.00 pm ar 06.12.24 tan 9.00 pm ar 07.12.24. Rhaid gwneud trefniadau parcio amgen. Bydd llwybr gwyro ar waith o amgylch canol y dref tra bydd y ffyrdd ar gau. Bydd angen i breswylwyr West Street, Cross Street a Capel Street ddefnyddio llwybrau amgen. Ni chaniateir mynediad i Hanbury Road o 9.00 pm ar 06.12.24 tan ar ôl 9.00 pm ar 07.12.24.

**TACSIS:** Ni fydd tacsis yn cael mynd ar hyd y ffyrdd a fydd ar gau. Byddwch cystal â threfnu safleoedd casglu a gollwng amgen.

**LLWYBRAU A SAFLEOEDD BYSIAU:** Bydd pob bws yn gweithredu yn uniongyrchol i/o Gyfnewidfa Bargod, ac ni fyddan nhw'n gwasanaethu Hanbury Square na Royal Square. Bydd bysiau ar lwybrau C18 ac X38 yn gweithredu ar hyd Wood Street, Ruth Street a Henry Street, ac ni fyddan nhw'n gwasanaethu Hanbury Square, Royal Square na The Plasnewydd.

## GORYMDAITH LUSERNAU CERDDORIAETH A GOLEUNI, BARGOD

### Dydd Sadwrn 7 Rhagfyr 2024

**LLEOLIAD:** Mae'r orymdaith yn dechrau o faes parcio'r Emporium (CF81 8QY).

**AMSER CYCHWYN:** 5.00pm.

**CAU FFYRDD A SYSTEMAU TRAFFIG:** Yn unol â Ffair y Gaeaf, Bargod, sy'n digwydd ar yr un diwrnod.

**MYNEDIAD I DACSIS, MANWERTHWYR A PHRESWYLWYR:** Yn unol â Ffair y Gaeaf, Bargod, sy'n digwydd ar yr un diwrnod.

**LLWYBRAU A SAFLEOEDD BYSIAU:** Yn unol â Ffair y Gaeaf, Bargod, sy'n digwydd ar yr un diwrnod.

**GWYBODAETH YCHWANEGOL:** Bydd gweithdai gwneud llusernau sy'n RHAD AC AM DDIM yn cael eu cynnal ar 23 Tachwedd a 30 Tachwedd o 10.00am tan 4.00pm yn Eglwys Santes Gwladys (CF81 8RP).

**Diolch am eich amser a'ch cydweithrediad yn ystod y cyfnod prysur hwn.**

I wneud ymholiadau cyffredinol, cysylltwch â'r Tîm Digwyddiadau ar 01443 866390 neu CroesoCaerffili@caerffili.gov.uk. I gymryd rhan yn unrhyw un neu ragor o'r digwyddiadau, neu i roi adborth ar ôl y digwyddiadau, cysylltwch â'r Tîm Digwyddiadau ar 01443 866390 neu digwyddiadau@caerffili.gov.uk. I gael diweddariadau rheolaidd am ddigwyddiadau, dilynwch Croeso Caerffili a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar Instagram, X a Facebook. I gael rhagor o wybodaeth am yr holl ddigwyddiadau, ewch i: www.visitcaerphilly.com/cy/events. Mae busnesau canol trefi yn cael eu hannog i gofrestru ar gyfer Cylchlythyr Busnes Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mynnwch wybod y diweddaraf am yr hyn sy'n digwydd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Ewch i https://public.govdelivery.com/accounts/UKCAERPHILLY/subscriber/new a thanysgrifio heddiw!

Mae'r prosiectau hyn yn cael eu cyllido gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn un o golofnau canolog agenda Ffyniant Bro Llywodraeth y DU ac mae'n darparu £2.6 biliwn o gyllid i'w fuddsoddi'n lleol erbyn mis Mawrth 2025. Nod y Gronfa yw meithrin rhagor o falchder mewn lle a chynyddu cyfleoedd bywyd ledled y Deyrnas Unedig drwy fuddsoddi mewn cymunedau a lleoedd, a chynorthwyo busnesau lleol, a phobl a sgiliau. Am ragor o wybodaeth, ewch i: www.gov.uk/government/publications/uk-shared-prosperity-fund-prospectus.cy #UKSPF

Am ddiweddariadau rheolaidd ynglŷn â digwyddiadau, dilynwch VisitCaerphilly ar X, Instagram a Facebook. visitcaerphilly

01443 866390 www.visitcaerphilly.com/cy/events #DewisLleol #UKSPF